PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 11 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Ahmed, Asghar Ali, Driscoll, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard a/ac Murphy |

28 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Congreve a Lay

29 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2017 fel cofnod cywir.

30 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

31 : DEISEBAU

Cais rhif, 17/00711/MNR, Annedd arfaethedig yng nghefn 19 Fairwood Road, Y Tyllgoed
Cais rhif, 17/01143MNR, 11 Station Road, Llanisien
Cais rhif, 17/01183/MNR, Uned 1 Cowbridge Court, 58-62 Heol Orllewinol y Bont-faen, Trelái
Cais rhif, 17/01547/MNR, 9 Heol Fair, Llandaf
Cais rhif, 17/01765/MNR, 255 Albany Road, Pen-y-lan

32 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

# CEISIADAU A GANIATEIR

17/00969/MNR – CAERAU

CARTREF GOFAL TŶ NEWYDD GYNT, 343 HEOL TRELAI
Datblygu 16 annedd fforddiadwy ar safle blaenorol Gofal Cartref Tŷ Newydd (gan gynnwys tir yng nghefn Heol Trenewydd) yn cynnwys 6 fflat cymorth, 8 fflat heb lifft a 2 fyngalo, tirlunio cysylltiedig, mynediad, draenio a gwaith priffyrdd.

Yn amodol ar ddileu Amodau 13 ac 14 a'u disodli gyda'r isod:

"Amod 13 – Bydd dŵr wyneb sy'n llifo o'r datblygiad ond yn ymwneud â charthffos dŵr wyneb cyhoeddus drwy ddyfais gwanhau sy'n gollwng ar raddfa heb fod yn fwy na 5 l/s"

Yn amodol ar y diwygiad canlynol:

"Llinell 1 o Amod 7; amnewid gyda 6 fel ei bod yn cyfeirio at Amod 6"

Yn amodol ar ychwanegu Amod 19 a fydd yn darllen:

"Cyn dechrau'r gwaith o ddatblygu lefelau slabiau'r adeiladau, dylid cyflwyno'r lefelau daear terfynol a'r lefelau daear presennol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo ac yna'u gweithredu yn ôl y gymeradwyaeth"

Yn amodol ar ychwanegu Amod 20 a fydd yn darllen:

"Bydd gwydr tywyll yn cael ei osod ar ffenestri lolfeydd/ystafelloedd bwyta ochr llawr cyntaf unedau 5 a 6, a bydd hyn yn berthnasol drwy gydol y datblygiad"

17/01143/MJR - LLANISIEN

11 STATION ROAD
Diwygio Amodau: 1) i ganiatáu caffi pysgod a sglodion gyda defnydd tec-awê a 2) i ganiatáu oriau masnachu o 07:30 tan 21:00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a 09:00 - 21:00 dydd Sul ar 14/01745/DCO.

Yn ddarostyngedig i'r diwygiad canlynol i Amod 3:

"Bydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd rhwng 09:00 a 21:00 rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn, a ni fydd ar agor i'r cyhoedd ar unrhyw adeg ar ddydd Sul"

17/01438/MNR – CAERAU

TIR WRTH HEN GANOLFAN TRINIAETH ALCOHOL, CALDICOT ROAD
Adeiladu 16 annedd, mynediad a gwaith cysylltiedig.

17/01824/MJR – SBLOT

TIR GER NETTLEFORD ROAD
Ailddatblygiad fydd yn cynnwys ymddiriedaeth cŵn, canolfan ailgartrefu ag adeiladau amrywiol, cyfleusterau parcio cysylltiedig a ffyrdd a llwybrau mewnol, cytiau ymarfer corff, ffensys, safle trin carthffosiaeth, triniaeth i'r ffiniau a thirweddu.

## CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

17/01291/MJR – CATHAYS

38-48 CRWYS ROAD

Trosi ac estyniad i'r adeiladau presennol sy'n wynebu Crwys Road i greu datblygiad llety myfyrwyr â phedwar llawr, gan gadw'r unedau masnachu presennol a bwyty. Codi 3 uned preswyl i fyfyrwyr 3 llawr gydag ystafelloedd yn y to ym maes parcio presennol yng nghefn Crwys Road gyda maes parcio a gardd gymunedol.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 8 fel a ganlyn:

"Ni fydd unrhyw waith yn dechrau ar y datblygiad a ganiateir nes bod cynllun rheoli adeiladu wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, i gynnwys yn ôl y gofyn, ond nid yn unig, manylion am balisau'r safle, cyfleusterau golchi olwynion mynediad safle a mesurau cyfyngu ar lwch. Bydd gwaith adeiladu'r datblygiad yn cael ei reoli'n llym yn unol â'r cynllun a gymeradwyir"

17/01490/MNR – Y MYNYDD BYCHAN

RHAN O GYN YSTAD PHOENIX, CAERPHILLY ROAD
Dymchwel adeiladau presennol a chodi storfa fwyd dosbarth A1 (11,717SQM arwynebedd llawr gros) gyda mynediad cysylltiedig, cyfleusterau parcio a thirweddu.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 2 i gyfeirio i gynllun rhif P(1)103 G a chynllun rhif P(1)106C ar bwynt (viii)

Amod 7, 9 a 12 i'w ddiwygio i gyfeirio at gynllun rhif P(1)103G

Diwygio amod 10 fel a ganlyn "wedi dechrau, heblaw am unrhyw waith dymchwel neu waith adfer!

Diwygio amod 14 fel a ganlyn "cynnydd, heblaw am unrhyw waith dymchwel neu waith adfer"

Diwygio amod 21 fel a ganlyn "oriau a ganiateir, 07:30 - 22:30 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a 10:00 - 17:30 ar ddyddiau Sul.

17/01691/MNR - GABALFA

BRIARDENE, HEOL Y GOGLEDD
Datblygiad yn cynnwys 30 o fflatiau dwy ystafell wely i'w gwerthu ar y farchnad agored a 9 o fflatiau fforddiadwy (5 x annedd un ystafell wely – bydd dau ohonynt yn unedau llawr daear hygyrch, a 4 x annedd dwy ystafell wely) gyda thirweddu cysylltiedig, mynediad, draenio a gwaith priffyrdd.

Yn amodol ar Amodau 18 ac 17 a'r amodau canlynol dilynol.

## CEISIADAU WEDI'U GWRTHOD

17/01183/MJR – TRELÁI

UNED 1 COWBRIDGE COURT, 58-62 HEOL ORLLEWINOL Y BONT-FAEN
Newid defnydd arfaethedig o ddosbarth defnydd B1 i D1 (Man Addoli)

16/02934/MJR – GRANGETOWN

ADEILADAU WINDSOR, FERRY ROAD
Datblygiad tai fforddiadwy arfaethedig a gwaith cysylltiedig.

Yn amodol ar Argymhelliad 2 ychwanegol a fydd yn darllen:

"Dylid rhoi gwybod i'r ymgeisydd am gyfyngiadau'r safle, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai'r safle'n un o safon well petai'n cael ei ddatblygu"

## CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

17/01547/MNR –LLANDAF

9 HEOL FAIR
Estyniad ochr deulawr a throsiad i greu tri annedd dwplecs

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

17/00711/MNR – Y TYLLGOED

ANNEDD ARFAETHEDIG YNG NGHEFN 19 FAIRWOOD ROAD
Materion a gedwir yn ôl mewn perthynas â chais 11/1285/DCO a cheisiadau 14/01330/DCO a 13/2253/DCO

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

17/01765/MNR – PEN-Y-LAN

225 ALBANY ROAD
Estyniad i'r cefn, trosiad llofft gyda ffenestri cromen cefn a throsi'r annedd i greu 4 fflat.

RHESWM: Er mwyn i swyddogion gael cyfle i ddrafftio rhesymau dros wrthod mewn perthynas â KP5 a H5 y CDLl.

## CEISIADAU A DYNNIR YN ÔL O'R RHAGLEN

17/01532/MNR – GLAN-YR-AFON

49 DESPENSER STREET
Estyniad cefn deulawr arfaethedig a throsi eiddo i greu 5 o fflatiau hunan-gynhaliol gyda chyfleusterau gwastraff a storio beics ar y safle.

33 : ADRAN 119, DEDDF PRIFFYRDD 1980, GORCHYMYN GWYRO

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad i ofyn i'r gwasanaethau cyfreithiol fwrw ymlaen â Gorchymyn Gwyro sy'n berthnasol dan Adran 119, Deddf Priffyrdd 1980 i ddiwygio llinell y llwybr cerdded hawl dramwy presennol o fewn y Datblygiad ger Church Road, Pentyrch

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor i sicrhau bod hawliau cerdded y cyhoedd yn dal i fod yn y datblygiad newydd.

34 : CEISIADAU A BENNIR GAN Y PWERAU DIRPRWYEDIG

Medi 2017

35 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

8 Tachwedd 2017